# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)01-08 (p3): 17 Ionawr 2007

#### Deiseb cyf P-03-094: Deiseb i gadw pwll nofio Edwardsville yn agored.

#### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon a gyflwynwyd gan Mrs. Monica Mehers.

#### Y Cefndir

Mae'r ddeiseb yn gofyn i'r Cynulliad wneud ei 'orau glas' i helpu'r deisebwyr i gadw'r pyllau nofio, megis yr un yn Edwardsville, yn agored i'w defnyddio o hyd. Mae'r ddeiseb yn dilyn cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gau'r cyfleuster hwn wrth ad-drefnu'i gyfleusterau hamdden a chwaraeon. Derbyniodd y ddeiseb 1,600 o lofnodion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr a Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ysgrifennu atebion i lythyrau gan y prif ddeisebydd gan egluro'r rhesymau dros y bwriad i gau pwll nofio Edwardsville.

Atodir y ddeiseb a'r llythyrau a dderbyniwyd gan y prif ddeisebydd oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad a hefyd oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr.

#### Bodlonrwydd y Deisebwyr i gyflwyno tystiolaeth lafar

Nid yw'r prif ddeisebydd wedi datgan hyd yma a fyddai hi'n fodlon ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno'u hachos pe ceid gwahoddiad i'r perwyl.

#### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb a phenderfynu ar ei lwybr gweithredu.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008

# Petition to the National Assembly for Wales

#### Petition to keep Edwardsville swimming pool open

Edwardsville Swimming Pool is a much loved and well used facility. It is a focal point in our local community though it is also used by people from the surrounding area. Merthyr Tydfil Borough Council plan to close this facility thus depriving our community of the opportunity to swim locally and keep healthy.

We the undersigned would like children to have their right to a long and healthy life fully protected by the availability of swimming facilities that many of them can walk to. We therefore call on the Assembly to do all it can to assist us to keep swimming pools, such as the one in Edwardsville, open for continued use to help maintain health and well-being in local communities. The Petition will be delivered to the Welsh Assembly for consideration by the Petitions Committee.